**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**
**Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/**
**NHS Wales Chief Executive**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

28 Awst 2020

Annwyl Mr Ramsay

**Gwasanaethau Radioleg – Camau Gweithredu i'w cwblhau ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

Ar ddiwedd 2016, cychwynnodd yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru, adolygiad o wasanaethau radioleg ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru. Dangosodd gwaith ychwanegol fod nifer o heriau allweddol yn wynebu GIG Cymru ar lefel genedlaethol a lleol.

Ar 20 Tachwedd 2019, ysgrifennais at brif weithredwyr y byrddau iechyd yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd yn lleol mewn perthynas â'r pum her ganlynol:

- Y Gweithlu
- Cyfarpar
- Y Galw
- Rheoli Gwasanaethau
- Ansawdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r ymatebion ac yn ceisio sicrwydd gan Fwrdd Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSB) bod y camau a gymerwyd yn briodol ac yn cefnogi'r cyfeiriad strategol fel yr amlinellir yn y Datganiad o Fwriad ar gyfer Delweddu.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrwydd bod y camau a nodwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Delweddu yn sgil y Datganiad o Fwriad a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u hadrodd i NIPSB er mwyn gallu nodi risgiau a lliniaru camau i'w cymryd yn unol â hynny.

Mae'r NIPSB yn disgwyl cadarnhau adroddiad terfynol o gynnydd yn erbyn argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar 13 Hydref 2020.  Disgwylir y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi adlewyrchiad cywir a manwl

o'r cynnydd a wnaed gan y rhaglen. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried yn syth ar ôl i'r Bwrdd ei gymeradwyo.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall

cc Rob Orford, Prif Gynghorydd Gwyddonol (Iechyd)
Frances Duffy, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gwyddor Gofal Iechyd a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd
Chris Newbrook, Pennaeth y Gangen Gwyddor Gofal Iechyd a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd
Matthew Ager, Arweinydd Ymbelydredd ar gyfer Iechyd
Jane Fitzpatrick, Cyfarwyddwr Rhaglenni Strategol/Cynghorydd Strategol ar gyfer Delweddu a Phatholeg, Llywodraeth Cymru
Melanie Barker, Cyfarwyddwr Cyswllt Interim Patholeg a Delweddu, Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru
Chris Kalinka, Rheolwr Rhaglen, Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru